



Canllawiau effaith ar y Gymraeg o fewn asesiadau ar les, dogfennau ymgynggori a gwaith ymchwil

Canllawiau effaith ar y Gymraeg o fewn asesiadau ar les, dogfennau ymgynghori a gwaith ymchwil

Cynnwys

Cynnwys	2
1. Safonau perthnasol.....	3
2. Cefndir	6
3. Ymdrech Gydwybodol.....	6
4. Penderfyniadau polisi - Templedi ac enghreifftiau o ystyriaethau all fod yn berthnasol ...	8
5. Dogfen Ymgynghori - Enghreifftiau o ystyriaethau all fod yn berthnasol.....	11
6. Safonau ymchwil.....	13
7. Adnoddau defnyddiol	14
8. Cymorth	14

Canllawiau effaith ar y Gymraeg o fewn asesiadau ar les, dogfennau ymgynghori a gwaith ymchwil

1. Safonau perthnasol

1.1 Safonau gwneud penderfyniadau polisi

Safon 88

Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried pa effeithiau, os o gwbl (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar:

- a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safon 89

Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel y byddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar:

- a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safon 90

Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel na fyddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar:

- a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Canllawiau effaith ar y Gymraeg o fewn asesiadau ar les, dogfennau ymgynghori a gwaith ymchwil

1.2 Safonau dogfen ymgynghori

Safon 91

Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch yr effeithiau (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi o dan ystyriaeth yn eu cael ar:

- a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safon 92

Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar:

- a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safon 93

Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar:

- a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Canllawiau effaith ar y Gymraeg o fewn asesiadau ar les, dogfennau ymgynghori a gwaith ymchwil

1.3 Safonau ymchwil

Safon 95

Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried pa effeithiau, os o gwbl (a pha un ai ydynt yn rhai positif neu'n rhai andwyol), y byddai'r penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth yn eu cael ar:

- a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safon 96

Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth felly byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar:

- a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safon 97

Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar:

- a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a
- b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Canllawiau effaith ar y Gymraeg o fewn asesiadau ar les, dogfennau ymgynghori a gwaith ymchwil

2. Cefndir

Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cyflwyno seminar gynghori yn manylu ar y camau i'w cymryd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg. Dylai pob swyddog Cyngor sy'n ymwneud â llunio polisi, chynnal asesiadau effaith ac ymgynghoriadau cyhoeddus wylio'r Seminar Sut i gydymffurfio a'r safonau ffurfio polisi a darllen Penderfyniad Tribiwnlys y Gymraeg yn achos TYG/22/01 er mwyn cael gwell ddealltwriaeth o'r Safonau uchod.

Gwylwch Seminar Canllawiau'r Comisiynydd - [Sut i gydymffurfio â'r safonau ffurfio polisi](#).

[Darllenwch penderfyniad Tribiwnlys y Gymraeg yn achos TYG/22/01.](#)

3. Ymdrech Gydwybodol

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn hollol glir bod sefydliadau angen gwneud ymdrech gydwytbodol i adnabod effeithiau penderfyniad polisi ar y Gymraeg a bod hyn yn ofyniad cyfreithiol.

Beth sy'n cael ei ystyried yn ymdrech gydwytbodol?

Dyma rai pethau pwysig i'w hystyried:

Digon o wybodaeth

Mae angen mwy na thrafodaeth arwynebol a datganiadau ffeithiol am y Gymraeg o fewn asesiadau effaith. Dylai sefydliadau gynnwys digon o wybodaeth er mwyn dangos bod ymdrech gydwytbodol wedi ei wneud i ystyried yr effeithiau ar y Gymraeg.

Deall y cyd-destun

Mae ymdrech gydwytbodol yn dibynnu ar y cyd-destun. Bydd penderfyniadau polisi sy'n cael effaith ar ddefnydd o'r Gymraeg, mynediad i'r iaith ac ar hyrwyddo'r Gymraeg yn destun trothwy uwch na phenderfyniadau heb fawr o effaith ar y Gymraeg. Mae enghreifftiau o bolisiâu trothwy uwch yn cynnwys (ond nid yn gyfyngedig i) gwaith gyda

Canllawiau effaith ar y Gymraeg o fewn asesiadau ar les, dogfennau ymgynghori a gwaith ymchwil

phobl ifanc a phlant, strategaeth addysg a chynlluniau trefniadaeth ysgolion, cyllideb y Cyngor, cynigion darparu gwasanaethau, recriwtio a hyfforddi staff Cymraeg, a chyllid ar gyfer gweithgareddau a digwyddiadau Cymraeg.

Amseriad

Rhaid cwblhau asesiadau effaith cyn ymgynghori'n gyhoeddus. Mae canlyniadau'r asesiad yn llywio cynnwys dogfennau a chwestiynau'r ymgynghoriad cyhoeddus. Mae hyn yn sicrhau bod y wybodaeth a gyflwynir i'r cyhoedd yn gynhwysfawr, yn dangos bod y Cyngor wedi asesu'r effaith, a bod y camau gweithredu i liniaru effeithiau negyddol a hyrwyddo effeithiau cadarnhaol wedi'u hadnabod.

Ehangu Asesiadau Effaith

Rhaid i asesiadau effaith ystyried effeithiau cadarnhaol, negyddol a niwtral er mwyn darparu sail letach i'r penderfyniad polisi. Bydd cyflwyno'r ystod gyfan o effeithiau sydd wedi eu hadnabod, ac ymatebion arfaethedig y Cyngor iddynt, yn gweithredu i liniaru risg a chefnogi camau gweithredu cadarnhaol sy'n hyrwyddo'r Gymraeg.

Bod yn benodol

Ni fydd darparu datganiadau cyffredinol am waith y Cyngor - neu gyfeirio at strategaethau a pholisïau eraill - yn cyfiawnhau asesiadau effaith llai manwl. Mae effeithiau penodol gan bob penderfyniad polisi. Ni ellir cymryd yn ganiataol eu bod wedi cael eu hystyried yn ddigonol yn rhywle arall na bod camau i liniaru effeithiau negyddol a hyrwyddo effeithiau cadarnhaol eisoes wedi'u rhoi ar waith. Rhaid asesu penderfyniadau polisi arfaethedig ar eu telerau eu hunain ac ni fydd rhestru gwybodaeth gyffredinol am gamau gweithredu a chyflawniadau blaenorol - na'r hyn sydd eisoes wedi'i wneud mewn maes penodol - yn bodloni'r gofynion.

Canllawiau effaith ar y Gymraeg o fewn asesiadau ar les, dogfennau ymgynghori a gwaith ymchwil

4. Penderfyniadau polisi - Templedi ac enghreifftiau o ystyriaethau all fod yn berthnasol

Dyma'r math o gwestiynau y dylai adran Effaith ar y Gymraeg mewn Asesiad ar Les ei ofyn (Nid yw bob cwestiwn yn mynd i fod yn berthnasol i bob Asesiad ar Les - detholiad o'r canlynol sydd eu hangen):

- Beth yw'r effeithiau tebygol ar y Gymraeg?
- Beth yw nodau'r polisi, a sut mae'r rhain yn ymwneud â'r iaith Gymraeg?
- A yw'r polisi, neu a allai'r polisi, hyrwyddo'r Gymraeg yn fwy a/neu'r defnydd o'r Gymraeg?
- Pa agweddau o'r polisi sy'n berthnasol i'r Gymraeg? Pa un, os o gwbl, o Safonau'r Gymraeg sy'n gymwys?
- A allai'r polisi effeithio ar grwpiau Cymraeg? Pa grwpiau Cymraeg sy'n berthnasol i'r polisi hwn?
- A yw'n bolisi a allai effeithio ar ddefnyddwyr gwasanaeth neu sut mae gwasanaethau neu swyddogaethau yn cael eu perfformio?
- A fydd yn cael effaith ar sut mae cyrff eraill yn gweithredu o ran y Gymraeg (er enghraifft, strategaeth genedlaethol neu feini prawf arolygu)?
- A yw'n ymwneud â swyddogaethau sydd wedi eu nodi fel rhai pwysig i siaradwyr Cymraeg yn dilyn ymarferion ymgysylltu blaenorol?

A fydd y camau arfaethedig yn effeithio ar unrhyw un neu bob un o'r canlynol:

- Defnyddio'r Gymraeg
- Cynaliadwyedd cymunedau Cymraeg eu hiaith
- Nifer a/neu ganran o siaradwyr Cymraeg
- Rhuglder a hyder siaradwyr a dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg
- Trosglwyddo'r Gymraeg gartref / o un genhedlaeth i'r nesaf
- Defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle
- Cynyddu seilwaith cyfryngau digidol Cymraeg a/neu'r cyfryngau digidol

Canllawiau effaith ar y Gymraeg o fewn asesiadau ar les, dogfennau ymgynghori a gwaith ymchwil

- Llif y siaradwyr Cymraeg i mewn ac allan o gadarnleoedd traddodiadol Cymru
- Effaith net ar y nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg mewn ardal / neu yn genedlaethol
- Hyrwyddo'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd a'i statws

I ba raddau y bydd y camau arfaethedig yn effeithio ar y canlynol?

- Cadarnleoedd traddodiadol sy'n siarad Cymraeg lle mae'r boblogaeth yn dirywio ac o dan fygythiad pellach (lle roedd tua 60% yn siarad Cymraeg yn flaenorol)
- Nodweddion ardal ddaearyddol, megis agosrwydd hanesyddol neu adnoddau diwylliannol, safleoedd y mae'r Gymraeg yn berthnasol iddynt, sy'n codi ymwybyddiaeth o Gymru ac mae ganddo gysylltiadau i dwristiaid, mynediad at wasanaethau Cymraeg
- Effeithio'n andwyol ar ardaloedd, safleoedd, priffyrdd, strwythurau neu wrthrychau o ddiddordeb i siaradwyr Cymraeg.

Neu gellir defnyddio tabl fel yr un isod:

Effeithiau positif	Effeithiau andwyol
A fyddai'r penderfyniad polisi yn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n symud o / i ardal benodol?	A fyddai'r penderfyniad polisi yn gostwng nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n symud o / i ardal benodol?
A fyddai'r penderfyniad polisi yn debygol o wneud y Gymraeg yn fwy gweledol?	A oes perygl y byddai'r penderfyniad polisi yn gam wahaniaethu yn erbyn defnyddwyr Cymraeg?
A fyddai'r penderfyniad polisi yn cynnig camau fydd yn debygol o ddiogelu'r Gymraeg mewn ardal benodol?	A fyddai'r penderfyniad polisi yn golygu lleihad yn nifer y swyddi sydd lle mae gofyn am sgiliau Cymraeg?
A fyddai'r penderfyniad polisi yn golygu cynnydd yn nifer y swyddi lle mae gofyn am sgiliau Cymraeg?	A fyddai'r penderfyniad polisi yn arwain at gau gwasanaethau Cymraeg penodol neu yn peryglu'r gwasanaethau hyn?
A fyddai'r penderfyniad polisi yn arwain at gynnydd mewn gwasanaethau Cymraeg	A fyddai'r penderfyniad polisi yn ei gwneud yn anoddach i recriwtio siaradwyr

Canllawiau effaith ar y Gymraeg o fewn asesiadau ar les, dogfennau ymgynghori a gwaith ymchwil

Effeithiau positif	Effeithiau andwyol
penodol neu yn sicrhau dyfodol llewyrchus i'r gwasanaethau hyn?	Cymraeg?
A fyddai'r penderfyniad polisi yn annog / ei gwneud yn haws i recriwtio siaradwyr Cymraeg?	A fyddai'r penderfyniad polisi yn bygwth cynaliadwyedd ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn rhan o wead y gymuned honno?
A fyddai'r penderfyniad polisi yn sicrhau cynaliadwyedd ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn rhan o wead y gymuned honno?	A fyddai'r penderfyniad polisi yn ei gwneud yn anoddach teithio er mwyn cael gwasanaeth Cymraeg?
A fyddai'r penderfyniad polisi yn hwyluso teithio er mwyn cael gwasanaethau Cymraeg?	A fyddai'r penderfyniad polisi yn arwain at gwtogi o ran nifer yr unigolion sy'n dysgu'r iaith?
A fyddai'r penderfyniad polisi yn cynnig gwasanaeth yn Gymraeg yn rhagweithiol i ddefnyddwyr?	A fyddai'r penderfyniad polisi yn golygu bod hygyrchedd a mynediad at y gwasanaethau Cymraeg yn cael ei gyfyngu?

Cwestiynau pellach defnyddiol:

1. A fyddai'r penderfyniad polisi yn arwain at gynnydd yn nifer yr unigolion sy'n dysgu'r iaith?
2. A fyddai'r penderfyniad polisi yn cymryd camau i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg?
3. A fyddai'r penderfyniad polisi yn cyfrannu at strategaethau'r Gymraeg yn genedlaethol ac mewn meysydd polisi penodol (e.e. Strategaeth Cymraeg 2050; Mwy na Geiriau; Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg)?

Canllawiau effaith ar y Gymraeg o fewn asesiadau ar les, dogfennau ymgynghori a gwaith ymchwil

5. Dogfen Ymgynghori - Enghreifftiau o ystyriaethau all fod yn berthnasol

Dyma'r mathau o gwestiynau y dylai dogfen ymgynghori ei ofyn.

Yn ogystal â cheisio barn ymatebwyr drwy'r cwestiynau safonol a geir yn y templed ymgynghori, rhaid i ni hefyd ddangos sut rydym wedi ystyried yr iaith yn naratif y ddogfen ymgynghori ei hun.

Enghraifft 1

“Ydych chi’n credu y gallai cynyddu premiwm Treth y Cyngor ar eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi gael effaith negyddol/cadarnhaol neu niwtral ar:

Gyfleoedd i:

- Ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol?
- Cynyddu'r nifer o bobl sy'n siarad neu'n dysgu Cymraeg yn y Sir?
- Defnyddio gwasanaethau Cymraeg?
- Cymunedau Cymraeg eu hiaith?

Enghraifft 2

“Er mwyn ein helpu i ystyried pa effeithiau y gallai'r polisi ei gael ar y Gymraeg, gellir defnyddio'r fformat canlynol o bwyntiau bwled a'u cynnwys yn eich dogfen ymgynghori i helpu i restru effeithiau posibl.

Mae angen i ni ystyried effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol. Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn effeithiau posibl ar:

- a) Nifer y siaradwyr Cymraeg yn gyffredinol, neu mewn ardal ddaearyddol benodol, sector neu grŵp penodol o siaradwyr Cymraeg
- b) Trosglwyddo iaith o fewn teuluoedd

Canllawiau effaith ar y Gymraeg o fewn asesiadau ar les, dogfennau ymgynghori a gwaith ymchwil

- c) Y Gymraeg yn y gweithle
- d) Defnyddio gwasanaethau Cymraeg
- e) Defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg
- f) Gwelededd y Gymraeg
- g) Bywiogrwydd cymunedau Cymraeg

*Pwysig - Mae'n bwysig iawn bodloni'r ddau ofyniad o fewn y safonau dogfen ymgynghori, sef, 'ystyried' a 'cheisio barn'.

Mae rhaid bodloni'r ddau ofyniad yma er mwyn Cydymffurfio a Safonau'r Gymraeg.

5.1 Ceisio barn

Mae'r gofyniad i 'geisio barn' yn golygu bod rhaid i sefydliadau gynnwys cwestiynau penodol ynghylch yr effeithiau ar y Gymraeg mewn unrhyw ddogfen ymgynghori.

Hynny yw, cwestiynau sy'n gofyn am effaith y penderfyniad ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Dylid nodi mai dim ond dogfen ymgynghori sy'n berthnasol i'r safonau yma. Dydi grwpiau ffocws, a digwyddiadau gyda'r cyhoedd ble mae sgysiau wyneb yn wyneb yn ddulliau ymgynghorol o'r fath sy'n dod o dan ofynion y safonau hyn.

5.2 Ystyried

Mae'r gofyniad i 'ystyried' yn golygu bod rhaid i sefydliadau nodi, amlinellu ac ystyried yr effeithiau posib ar y Gymraeg, ac ystyried yr opsiynau sydd ar gae fyddai'n ei alluogi i wneud y penderfyniad mewn ffordd fyddai'n cael effeithiau mwy positif a llai andwyol ar y Gymraeg. Mae disgwyliad bod sefydliadau yn ystyried yr effeithiau yng nghyd-destun y Gymraeg yn yr ardaloedd neu'r cymunedau yr effeithir arnynt, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

Mae'n bosib y byddai cynnwys y testun ar yr effeithiau ar y Gymraeg o'r asesiad effaith o fewn y ddogfen ymgynghori yn ddigonol ar gyfer cydymffurfio gyda'r gofyniad i ystyried y

Canllawiau effaith ar y Gymraeg o fewn asesiadau ar les, dogfennau ymgynghori a gwaith ymchwil

Gymraeg, os yw'n dangos bod ymdrech gydwbybodol wedi ei wneud i ystyried y Gymraeg. Gellid hefyd cynnwys atodiad at yr asesiad effaith ar y Gymraeg o fewn y ddogfen ymgynghori, gan grynhoi'r prif bwyntiau yng nghorff y ddogfen ymgynghori.

Mae'n bwysig bod ymdrech gydwbybodol yn cael ei wneud i ystyried y Gymraeg mewn dogfen ymgynghori. Cyfrifoldeb Cyngor Sir Ddinbych yw adnabod yr effeithiau posib ar y Gymraeg, a'u hystyried yn y ddogfen ymgynghori fel gall y cyhoedd wneud sylwadau gwybodus mewn ymateb iddynt. Nid cyfrifoldeb y cyhoedd yw cyflwyno effeithiau posib y cynnig i sefydliadau eu hystyried am y tro cyntaf ar ôl y broses o ymgynghori.

6. Safonau ymchwil

Pan mae sefydliad yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i gynorthwyo wrth wneud penderfyniad polisi, rhaid i'r ymchwil hwnnw ystyried unrhyw effaith all y penderfyniad polisi ei gael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rhaid i'r ymchwil hefyd ystyried sut ellid gwneud y penderfyniad polisi fel y byddai'n cynyddu unrhyw effaith bositif, a lliniaru unrhyw effaith andwyol ar y Gymraeg.

Dyma'r mathau o gwestiynau y dylai dogfen Ymchwil ei ofyn.

Enghraifft: Casglu tystiolaeth

Os byddwch yn penderfynu y gallai eich penderfyniad polisi effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru, ac os ydych yn casglu tystiolaeth sydd wedi'i bwriadu i lywio eich gwaith, rhaid i chi gasglu tystiolaeth i ddangos maint yr effaith hon a sut y gallwch ei llywio.

Rhaid i'r ymchwil ystyried:

- Pa effeithiau, os o gwbl (cadarnhaol neu andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg;
- Pa effeithiau, os o gwbl (cadarnhaol neu andwyol), byddai'r penderfyniad polisi yn ei gael ar y Gymraeg yn cael ei thrin yr un fath â'r Saesneg;
- Sut y gellid lliniaru effeithiau negyddol a gwella effeithiau positif.

Canllawiau effaith ar y Gymraeg o fewn asesiadau ar les, dogfennau ymgynghori a gwaith ymchwil

Dylech geisio defnyddio data a mewnwelediad sy'n bodoli eisoes pan fyddant ar gael ac yn berthnasol.

Gallai enghreifftiau o gasglu tystiolaeth gynnwys:

- Ymchwil desg (e.e., erthyglau a adolygir gan gymheiriaid; adolygiadau llenyddiaeth; cyhoeddiadau rhanddeiliaid; cyfryngau)
- Casglu tystiolaeth o ymgysylltiad blaenorol â rhanddeiliaid
- Arolygon
- Ymchwil ansoddol (e.e, grwpiau ffocws; cyfweiliadau)

7. Adnoddau defnyddiol

[Gwefan Comisiynydd y Gymraeg: Codau ymarfer](#)

[Gwefan Comisiynydd y Gymraeg: Safonau Llunio Polisi](#)

[Tribiwnlys y Gymraeg: Cyngor Castell-nedd Port Talbot v Comisiynydd y Gymraeg \(Penderfyniad y Tribiwnlys\)](#)

[Tribiwnlys y Gymraeg: Cyngor Dinas a Sir Abertawe v Comisiynydd y Gymraeg \(Penderfyniad y Tribiwnlys\)](#)

8. Cymorth

Am gymorth, cysylltwch â: Gerallt Lyall, Swyddog Iaith Gymraeg

E-bost: Gerallt.lyall@sirddinbych.gov.uk

Ffôn: 01824 708269

Adolygwyd y canllawiau yma Tachwedd 2025.